# Atebion i Gwestiynau nas Cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 17 Tachwedd 1999

[R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol

### Datblygu Safleoedd Glo Brig

**C6 Huw Lewis:** Pa gamau y bydd Peter Law yn eu cymryd i sicrhau yr ymgynghorir yn llawn â chymunedau lleol ynghylch ceisiadau i ddatblygu safloedd glo brig ac i sicrhau bod y cymunedau hynny yn cael pob cyfle i gymryd rhan? (OAQ2083JS)

**Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol (Peter Law):** Yr awdurdodau cynllunio lleol sydd yn gyfrifol am benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer cloddio glo brig. Y Cynulliad sydd yn gyfrifol am benderfynu ar geisiadau sydd wedi eu galw i mewn ac am apeliadau mawr hefyd. Mae'r gofynion ar gyfer cyhoeddi ceisiadau i ddatblygu, gan gynnwys cloddio a gweithio'r mwynau, wedi eu nodi yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ddatblygu Gyffredinol) 1995. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys arddangos rhybuddion ar y safle, hysbysu perchnogion neu breswylwyr cyfagos a hysbysebu'n lleol, yn ogystal â hysbysu'r cynghorau cymuned lleol.

Mae'r cyd-destun ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau sydd yn ymwneud â mwynau yn cynnwys y gyfres Cyfarwyddyd Cynllunio Mwynau (MPG), a chynllun datblygu yr ardal honno. Ar hyn o bryd mae'r MPG yn cael ei adolygu a bydd unrhyw newidiadau i'r cyfarwyddyd yn ddibynnol ar ymgynghori'n llawn ag awdurdodau cynllunio lleol, a sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb yn y maes. Mae cynlluniau datblygu yn cael eu paratoi gan awdurdodau cynllunio lleol ac mae'r rheolau'n eu gorfodi i gyflwyno'r polisïau a nodir ynddynt, fel bo modd ymgynghori â'r cymunedau y'u paratowyd ar eu cyfer.

### Adroddiad y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol

**C7 Jenny Randerson:** Pa argymhellion yn seithfed adroddiad Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin y mae Peter Law yn bwriadu eu cyflwyno yng Nghymru? (OAQ2076VB)

**Peter Law:** Mae mwyafrif yr argymhellion gan y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion polisi ynni. Nid oes gan y Cynulliad unrhyw reolaeth dros y materion hyn. Mae Llywodraeth y DU, felly, yn ymateb i'r argymhellion hyn. Mae swyddogion y Cynulliad yn ystyried y goblygiadau i bolisïau a rhaglenni Cymru.

### Dŵr Ymdrochi yng Nghymru

**C8 Lynne Neagle:** Pa welliannau y mae Peter Law wedi'u gwneud i ansawdd dŵr ymdrochi yng Nghymru? (OAQ2079JS)

**Peter Law:** Mae ansawdd dŵr ymdrochi arfordir Cymru yn cydymffurfio â safonau Ewrop yn well nag erioed. Cafodd dŵr ymdrochi eu monitro mewn 70 o lefydd yng Nghymru ac yr oeddent i gyd namyn un yn cyrraedd y safonau bacteria gorfodol a nodir yng Nghyfarwyddeb

ansawdd dŵr ymdrochi Ewrop 76/160/EEC. Rhaid i draethau sydd yn gymwys i ennill Baner Las Ewrop fodloni canllawiau'r

gyfarwyddeb sydd 20 gwaith yn anos i'w cyflawni, fodd bynnag, mae nifer gynyddol o ardaloedd dŵr ymdrochi Cymru yn cyrraedd y safon hon. Mae 39 ardal o ddŵr ymdrochi wedi cyrraedd y safonau hyn, sydd yn gynnydd sylweddolar y 25 a lwyddodd y llynedd. Mae yn llwyddiant gwych a dyma'r safonau uchaf yr ydym wedi eu gweld yng Nghymru.

### Tai Awdurdodau Lleol (Buddsoddi Ychwanegol)

**C9 Peter Black:** Pa ymatebion y mae Peter Law wedi'u cael i adroddiad y gweithgor, 'Securing Additional Investment in Local Authority Housing through Private Finance', ac a wnaiff ddatganiad? [R] (OAQ2037JS)

**Peter Law:** Ni chafwyd ymateb i nodi'r safbwynt swyddogol mewn perthynas â'r adroddiad hyd yma. Ysgrifennais at arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gan argymell ein bod yn cydweithio ar yr hyn a fyddai'n dilyn yr adroddiad. Nodais y dymuniad i gytuno ar fodel ar gyfer perchnogaeth gymunedol yng Nghymru. Byddai'r Cynulliad a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gallu cymeradwyo'r model hwn i'r awdurdodau sydd yn penderfynu dilyn y trywydd hwn. Atebodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru nad oedd eto wedi penderfynu a fyddai'n gallu cymeradwyo model o berchnogaeth gymunedol ai peidio.

### Contract Rheoli Gwastraff Cynaliadwy

**C10 David Lloyd:** Pa gynlluniau sydd gan Peter Law i gyhoeddi canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol i ohirio unrhyw benderfyniadau tymor hir ynghylch contractau a allai wrthdaro ag amcanion contract rheoli gwastraff cynaliadwy terfynol? (OAQ2067VB) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cynlluniau Ffordd Osgoi

**C11 Rhodri Glyn Thomas:** Am fod Peter Law bellach wedi gweld y gyllideb ddrafft, a wnaiff ddatganiad ar ba gynlluniau ffordd osgoi a fydd yn cael cymorth ariannol? (OAQ2060JS)

**Peter Law:** Mae hi'n rhy fuan ym mhroses cynllunio'r gyllideb i wneud unrhyw benderfyniadau terfynol ar gynlluniau unigol yn y rhaglen blaengynllunio cefnffyrdd. Caiff y gyllideb ddrafft ragarweiniol, a gyhoeddwyd ar 4 Tachwedd, ei hystyried yn fanwl yn ystod yr wythnosau nesaf, gan gynnwys trafodaeth bellach gan y Pwyllgor. Bydd ffurf a chynnwys y rhaglen blaengynllunio cefnffyrdd yn cael eu pennu gyda golwg ar setliad terfynol y gyllideb. Mae'r dyraniadau unigol i awdurdodau lleol dan y grant cludiant yn dal i gael eu hystyried. Gobeithiaf fod mewn sefyllfa i wneud cyhoeddiad ar setliad 2000-01 tua throad y flwyddyn.

### Gwerthiant Parc Coedwig Cas-gwent

**C12 David Davies:** A wnaiff Peter Law gyfarfod â'r Fenter Coedwigaeth i drafod gwerthiant posibl Parc Coedwig Cas-gwent? (OAQ2051JS) ***Trosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Amaethaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.***

**Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther):** Yr wyf eisoes yn ymwybodol o werthiant posibl Parc Coedwig Cas-gwent ac yr wyf wedi gofyn i fy swyddogion yn y Comisiwn Coedwigaeth i'm hysbysu o unrhyw ddatblygiadau pellach.

**Storio Gwastraff Niwclear**

**C13 Richard Edwards:** A oes gan Peter Law unrhyw fwriad i archwilio'r cynigion ar gyfer storio gwastraff niwclear yn Nhrecwn, Sir Benfro? I ba raddau y gall atal cynnig o'r fath, ac a yw am wneud datganiad? (OAQ2068JS)

**Peter Law:** Er i berchnogion hen storfa Arfau y Llynges Frenhinol ddatgan y carent hyrwyddo defnyddio'r safle i storio gwastraff niwclear, deallaf nad oes unrhyw gynigion penodol wedi dod i law ar gyfer eu cymeradwyo. Pe byddai unrhyw geisiadau yn dod i law, un ai ar gyfer caniatâd cynllunio neu i'w hawdurdodi dan Ddeddf Sylweddau Ymbelydrol 1993, buaswn yn fodlon ystyried ceisiadau i'r Cynulliad ddefnyddio ei rymoedd galw i mewn.

**Datblygu Bae Caerdydd**

**C14 Phil Williams:** O gofio'r penderfyniadau pwysig y mae'n rhaid eu gwneud yn ardal Bae Caerdydd o ran tai, cyfleusterau hamdden, y seilwaith trafnidiaeth a diogelu'r amgylchedd, gan gynnwys ansawdd dŵr, ac o ystyried y cyfrifoldebau newydd fydd gan sawl awdurdod gan gynnwys Cyngor Dinas a Sir Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg, pa baratoadau y mae Peter Law yn eu gwneud i lunio cynllun strategol newydd ar gyfer datblygu ardal Bae Caerdydd mewn modd cydlynol? (OAQ2080JS) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Gosod Arwyddbyst a Marcio Hawliau Tramwy**

**C15 Janet Davies:** A yw Peter Law wedi cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth yn ymwneud â gosod arwyddbyst a marcio hawliau tramwy, gan gynnwys llwybrau ceffyl a llwybrau cerdded ar yr arfordir? (OAQ2044JS)

**Peter Law:** Nac ydw. O fewn y Cynulliad, Christine Gwyther sydd yn bennaf gyfrifol am faterion polisïau hawliau tramwy. Fodd bynnag, mae materion fel gosod arwyddbyst a marcio hawliau tramwy unigol yn faterion i'r awdurdodau priffyrdd lleol. Dan adran 27 Deddf Cefn Gwlad 1968 mae gan awdurdodau priffyrdd yr hawl i godi a chynnal a chadw arwyddbyst ar hyd unrhyw lwybr cerdded neu lwybr ceffyl y maent yn gyfrifol amdano. Nid oes raid iddynt godi arwyddbost, cyn belled ag y pennir, ar ôl ymgynghori â'r cynghorau cymuned perthnasol, nad oes rhaid cael arwyddbost yno.

**Datblygu Cefn Gwlad Cymru**

**C16 Glyn Davies:** A yw Peter Law yn bwriadu cyhoeddi cyfarwyddyd cynllunio a fydd yn caniatáu ar gyfer datblygiadau na fydd yn tarfu'n ormodol ar gefn gwlad Cymru? (OAQ2074JS)

**Peter Law:** Mae'r polisi cynllunio wedi ei gynnwys yn Adolygiad Cyntaf i'r Polisi Cynllunio dan Ganllawiau Cynllunio (Cymru), a gyhoeddwyd ym mis Ebrill eleni. Bydd y ddogfen yn cael ei hadolygu a chaiff drafft o Ail Adolygiad i'r Polisi Cynllunio dan Ganllawiau Cynllunio (Cymru) ei baratoi. Bydd yr angen am ganllawiau ar bob agwedd o ddatblygu yng nghefn gwlad yn cael ei ystyried yn ystod yr adolygiad hwn.

## Penderfyniadau ar Faterion Iechyd a Chynllunio

**C17 Janet Ryder:** Pa mor bwysig, ym marn Peter Law a'i gyd-ysgrifenyddion, yw pwyso a mesur yr holl oblygiadau, gan gynnwys materion iechyd a rhoi caniatâd cynllunio, cyn penderfynu ar faterion o'r fath? (OAQ2081JS)

**Peter Law:** Fel arfer, byddai holl oblygiadau datblygiad arfaethedig, gan gynnwys materion iechyd, wedi cael eu hystyried yn llawn mewn archwiliad. Buasai archwilydd yn eu pwyso a'u mesur gyda chymorth asesydd pe byddai angen am hynny, cyn i'r apêl neu'r cais cynllunio ddod ger fy mron i'w benderfynu.

Pan fyddaf yn penderfynu ar apêl neu gais cynllunio rhaid imi weithredu—a chael fy ngweld yn gweithredu—yn deg ac yn ddiduedd, drwy arddel safbwynt diogwydd ac annibynnol gan gyfeirio fy meddwl yn briodol i ystyried y mater. Ni ddylwn felly drafod y mater gyda fy nghydweithwyr.

Dylid ystyried perthnasedd polisïau'r Cynulliad i achos penodol yn yr archwiliad, efallai y bydd rhaid imi dderbyn cyngor gan fy nghydweithwyr ar faterion sydd yn ymwneud â pholisi y tu allan i fy nghyfrifoldebau. Os cyfyd materion newydd sydd yn berthnasol, ond ni chawsant eu hystyried yn flaenorol, yn ystod trafodaethau o'r fath, byddai rhaid imi ymgynghori â'r pleidiau ynghylch yr apêl neu'r cais cyn dod i benderfyniad.

## Hyrwyddo Diogelwch Ffyrdd

**C18 Nick Bourne:** Pa gamau y mae Peter Law yn eu cymryd i hyrwyddo diogelwch ffyrdd i ddefnyddwyr ffyrdd ac i gerddwyr ledled Cymru? (OAQ2047JS)

**Peter Law:** Mae Cyngor Diogelwch Ffordd Cymru, sydd yn cynnwys awdurdodau lleol, yr asiantaethau gorfodaeth, y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau, Ymgynghorydd Addysg Traffig Cymru a swyddogion y Cynulliad, i gyd yn gweithio i hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd ac i leihau damweiniau ar ffyrdd Cymru. Swyddogaeth y Cyngor yw cydlynu, adfywio a hyrwyddo addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd diogelwch ffyrdd. Mae'r Cyngor wedi hyrwyddo prosiectau diogelwch ffyrdd sydd yn cynnwys cynllun Cerdded i'r Ysgol, cystadleuaeth peintio poster diogelwch ffyrdd a chynllun hyfforddi i rai rhwng 15 a 16 oed nad ydynt wedi dechrau gyrru eto. Mae'r Cynulliad yn cynnig gwasanaethau Ymgynghorydd Traffig Cymru hefyd i hyrwyddo addysg diogelwch ffyrdd. Mae'r ymgynghorydd yn gyfrifol am gynhyrchu, dosbarthu a hyrwyddo deunydd newydd, yn enwedig drwy gyfrwng y Gymraeg.

Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau sydd yn gyfrifol am hyrwyddo diogelwch ffyrdd ledled Prydain. Yr ydym yn cynhyrchu deunydd drwy gyfrwng y Gymraeg i gefnogi'r ymgyrchoedd tymor hir cenedlaethol i sicrhau bod defnyddwyr ffyrdd yn ymwybodol o beryglon yfed a gyrru a goryrru, yn ogystal â diogelwch yn y car megis gwisgo gwregys diogelwch. Yn fuan bydd Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau yn cyhoeddi strategaeth diogelwch ffyrdd a thargedau newydd ar gyfer y flwyddyn 2010. Bydd rhaid i'r Cynulliad ystyried mesurau penodol i gefnogi'r strategaeth yng Nghymru.

## Ymateb i Gynnydd yn y Dreth Gyngor

**C19 Nick Bourne:** Pa gamau y mae Peter Law yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i sylwadau yn gwrthwynebu'r cynnydd arfaethedig yn y dreth gyngor ledled Cymru? (OAQ2048JS)

**Peter Law:** Awdurdodau lleol sydd yn gyfrifol am osod y dreth gyngor. Yr ydym wedi cyhoeddi ein cynigion ar gyfer grant refeniw i lywodraeth leol fel rhan o'r gyllideb ddrafft dros dro. Buasem yn gallu cynyddu lefel y grant dim ond drwy dorri gwariant y Cynulliad ar raglenni eraill. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cytuno y dylai fod yna lefel o gysondeb yn y cynnydd a geir yn y dreth cyngor yn ystod y flwyddyn nesaf yng Nghymru, ond nid yw am weld y grant lleddfu yn uwch na'r grant a gafwyd eleni. Mae'r Prif Ysgrifennydd wedi ysgrifennu at y Gymdeithas i'w gwahodd i ddewis rhwng grant lleddfu o £17 miliwn a grant lleddfu o £22 miliwn. Bydd y Cabinet yn argymell fod y Cynulliad yn rhoi dewis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar waith. Byddai'r grant lleddfu yn cael ei gyllido o fewn cyfanswm y grant refeniw ar gyfer llywodraeth leol.

## Gwelliannau i'r A470

**C20 Kirsty Williams:** A fydd gwelliannau i'r A470 ger Rhaeadr? (OAQ2054JS)

## Cysylltiadau Trafnidiaeth rhwng y De a'r Gogledd

**C25 Kirsty Williams:** A wnaiff Peter Law ddatganiad ynghylch yr angen am gysylltiadau trafnidiaeth rhwng y de a'r gogledd? (OAQ2053JS)

**Peter Law:** Atebaf y ddau gwestiwn gyda'i gilydd gan eu bod yn ymwneud â'r un pwnc. Cyhoeddwyd adolygiad strategol o Raglen Cefnffyrdd Cymru yn ystod mis Mehefin 1998. Eglurodd bod y Llywodraeth yn credu na ellir ystyried polisi'r ffyrdd ar wahân i'r amcanion trafnidiaeth ehangach a'r angen am bolisi trafnidiaeth integredig addas. Cyhoeddais ar 9 Medi 1999 bod Babtie Group Limited wedi ennill cytundeb i edrych ar y cysylltiadau trafnidiaeth sydd eisoes yn bodoli a'r rhai a fyddai'n bosibl i wella'r cysylltiadau rhwng gogledd a de Cymru, gan gynnwys y galw am wasanaethau trenau a bysiau. Yn rhan o hyn darperir gwybodaeth ac asesir y sefyllfa ar hyd llwybrau coridorau'r A470, yr A489 a'r A487 a'r A483 yng ngogledd Cymru gyda golwg ar yr anghenion lleol am gludiant rhwng y cymunedau sydd ar hyd ac yn gyfagos i'r llwybr hwn. Wrth reswm, bydd asesu'r A470 yn cynnwys y sefyllfa yn Rhaeadr Gwy.

Ceir gwybodaeth ynghylch y galw yn yr astudiaeth hon a fydd yn ein cynorthwyo i benderfynu ar fuddsoddi mewn trafnidiaeth yn y dyfodol. Yn ogystal â hynny bydd yn rhoi sylfaen i'r achos y byddwn yn rhoi gerbron yr Awdurdod Strategaeth Trenau ar gyfer gwell gwasanaethau trenau yn ystod y gyfres nesaf o drafodaethau breinio. Yn y cyfamser, yr ydym ni, ynghyd ag awdurdodau lleol a chwmnïau trenau, yn archwilio i weld pa welliannau cynyddol y gellir eu gwneud i'r cysylltiadau yn yr Amwythig, Wrecsam a Crewe.

**Trethi Cyngor (Safoni Codiadau)**

**C21 David Melding:** A wnaiff Peter Law amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar safoni'r codiadau yn y trethi cyngor? (OAQ2077JS)
**Peter Law:** Cyfeiriaf at yr ateb a roddais i gwestiwn OAQ2048JS

**Pwerau'r Cynulliad (Pobl Ddigartref)**

**C22 Peter Black:** Pa bwerau sydd gan y Cynulliad i osod deddfwriaeth eilaidd ar waith er mwyn cynorthwyo'r awdurdodau lleol i wella'u darpariaeth ar gyfer y digartref yn eu hardal? [R] (OAQ2057JS)

**Peter Law:** Rhan VI o Ddeddf Tai 1996 sydd yn rheoli sut y mae awdurdodau lleol yn dyrannu tai. Rhan VII o'r Ddeddf honno sydd yn rheoli'r cyfrifoldeb am ddigartrefedd. Mae Adran 169 ac Adran 182 y Ddeddf yn caniatáu i'r Cynulliad roi canllawiau i awdurdodau lleol ar sut y dylent fynd ati i gyflawni eu cyfrifoldebau dan Rannau VI a VII o'r Ddeddf. Ar hyn o bryd, yr ydym yn adolygu'r cod canllawiau ar ddyrannu tai ac ar ddigartrefedd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu blaenoriaethau Cymru.

Gyda golwg ar ddyrannu tai a digartrefedd, mae pwerau eraill y Cynulliad dan y Ddeddf wedi eu nodi isod:

| **Darpariaeth** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| Adran 2(7) | Ychwanegu dibenion, amcanion neu bwerau caniataol landloriaid cymdithasol cofrestredig. |
| Adran 17 | Y gallu i roi rhan V Deddf Tai 1985 ar waith, gyda'r newidiadau. |
| Adran 17(1) | Nodi cyfanswm neu gyfradd y disgownt. |
| Adran17(1) b | Nodi ardaloedd gwledig nad ydynt yn gymwys. |
| Adrannau 160(4), | Pennu meini prawf penodol ar gyfer dyraniadau. |
| Adran 161(2) | Y pwer i bennu pobl sydd yn gymwys ar gyfer llety tai. |
| Adran 162(4) | Pennu cynnwys cofrestr tai yr awdurdod lleol. |
| Adrannau 163(7)& 165 | Pennu meini prawf ar gyfer symud pobl oddi ar y gofrestr ac apeliadau. |
| Adran167(3), (4)&(5) | Nodi disgrifiadau pellach o bobl y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt; ffactorau i'w diystyrru pan yn dyrannu a phennu egwyddorion ar gyfer llunio dyraniadau. |
| Adran 172 | Y pŵer i wneud darpariaethau ôl-ddilynol ac eraill. |
| Adran 177(3) | Y pŵer i gael trefn mewn perthynas â rhywun yn parhau i fyw mewn eiddo. |
| Adran 180(1) | Y pŵer i roi cymorth grant neu fenthyciad i fudiadau gwirfoddol sydd yn ymwneud â digartrefedd. |
| Adran 181(2) | Y pŵer i bennu amodau cymorth dan Adran 180. |
| Adran 185 | Y pŵer i bennu'r rheini nad ydynt yn gymwys i dderbyn cymorth tai. Mae'r Ddeddf yn nodi bod y swyddogaeth i'w ymarfer ar y cyd â'r Cynulliad a'r Ysgrifennydd Gwladol. |
| Adran 186 | Dyletswydd i gofnodi manylion sydd yn ymwneud â'r rhai sydd yn chwilio am nodded ac yn y blaen. |

| Darpariaeth | Disgrifiad |
|---|---|
| Adran 187 | Dyletswydd i ddarparu awdurdod tai gyda gwybodaeth i'r rhai sydd yn chwilio am nodded. |
| Adran 189 | Y pŵer i bennu dosbarthiadau pellach o bobl sydd ag angen am lety fel mater o flaenoriaeth. |
| Adran 198(5) | Y pŵer i roi cyfarwyddiadau i drosglwyddo achos i awdurdod tai arall. |
| Adran199(5) | Y pŵer i nodi amgylchiadau pellach gyda golwg ar 'gysylltiad lleol'. |
| Adran 203(2) | Y pŵer i ddarparu ar gyfer y drefn gyda golwg ar adolygiad dan adran 202. |
| Adran 207 | Y pŵer i roi cyfarwyddiadau gyda golwg ar awdurdod tai lleol yn darparu llety. |
| Adran 210 | Y pŵer i nodi amgylchiadau ynghylch addasrwydd llety. |

**Gwastraff Clinigol**

**C23 Helen Mary Jones:** A wnaiff Peter Law ddatganiad ynghylch trin gwastraff clinigol yng Nghymru? (OAQ2072VB)

**Peter Law:** Ceir rheolau llym i sicrhau y caiff gwastraff clinigol ei reoli'n ddiogel a'i fod yn cael ei adfer neu ei waredu heb niweidio'r amgylchedd nac iechyd y cyhoedd. Nodir y prif reolau yn Rhan II Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990.

Yn ystod mis Medi eleni, cyhoeddodd Pwyllgor Ymgynghorol y Gwasanaethau Iechyd, ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd, gyfarwyddyd newydd ar drin, storio, cludo a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel.

**Strategaeth Wastraff Cymru**

**C24 David Lloyd:** Mae strategaeth wastraff y DU wedi pennu targedau ar gyfer ailgylchu sydd islaw targedau Ewrop. A fydd strategaeth wastraff Cymru yn pennu targedau uwch ar gyfer ailgylchu gwastraff cartref a gwastraff diwydiannol, fel ei gilydd, er mwyn cyfateb i'r arferion rhyngwladol gorau? (OAQ2071VB) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Rheoliadau Datblygu Tir**

**C26 Richard Edwards:** A yw Peter Law yn bwriadu llacio'r rheoliadau datblygu tir fel un ffordd o sicrhau datblygu gwledig cynaliadwy? (OAQ2063JS).

**Peter Law:** Yr wyf yn disgwyl y bydd y system gynllunio yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at gyflawni datblygu cynaliadwy. Bydd rhaid i adolygiad a gynhelir y flwyddyn nesaf o'r polisi cynllunio cenedlaethol ystyried pa newidiadau fydd eu hangen i sicrhau hyn. Bydd ein prif ddogfen polisi cynllunio, Adolygiad Cyntaf i'r Polisi Cynllunio dan Ganllawiau Cynllunio (Cymru) a gyhoeddwyd ym mis Ebrill eleni, yn cael ei hadolygu a bydd drafft o'r Polisi Cynllunio dan Ganllawiau Cynllunio (Cymru) yn cael ei baratoi a bydd ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal arno. Yr wyf wedi cyhoeddi fy mod yn bwriadu sefydlu fforwm cynllunio i fod o gymorth gydag agweddau technegol gwaith paratoi'r canllawiau drafft.

Bydd yr adolygiad polisi, sydd ar fin dod, yn ystyried canlyniadau'r ymchwil hefyd, gan gwmpasu astudiaethau sydd ar y gweill ar hyn o bryd, yn ogystal â gwaith sydd yn cael ei wneud gan grwpiau ymgynghorol a fforymau, gan gynnwys y 'Datganiad Gwledig' a

baratowyd gan Bartneriaeth Wledig Cymru. Yr wyf yn ffyddiog y bydd pob agwedd o ddatblygu mewn ardaloedd gwledig yn cael ei ystyried yn ystod proses baratoi'r canllawiau drafft newydd. Fodd bynnag, nid oes gennyf unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i newid y rheolau cynllunio sydd yn rheoli datblygiad mewn ardaloedd gwledig.

**Ailgylchu Caniau yn y Cynulliad**

**C27 Christine Humphries:** Pa gamau y gall Peter Law eu cymryd i sicrhau darpariaeth ar gyfer ailgylchu caniau dur ac alwminiwm yn y Cynulliad? (OAQ2055JS)

**Peter Law:** Cyflwynwyd ailgylchu caniau i'r Swyddfa Gymreig yn 1992. Ers hynny mae oddeutu 50,000 o ganiau wedi eu hanfon i'w hailgylchu. Mae'r cynllun yn cynnwys y rhan fwyaf o staff a gyflogir gan y Cynulliad, ac yn fuan, bydd y cynllun yn cael ei ymestyn i gynnwys adeilad y Cynulliad ei hun.

Yn fwy cyffredinol, mae ailgylchu gwastraff yn agwedd bwysig o strategaeth y Cynulliad i gynyddu ei berfformiad amgylcheddol ei hun. Yn ogystal â chaniau, ailgylchir llawer o bapur, cetris arlliw, deunydd plastig, tiwbiau fflworolau, hen baledi pren a deunydd pacio polythen.

Mae'r Cynulliad wedi ymroi i roi ei wastraff ar waith ac yr ydym yn bwriadu gwella ar hyn yn y dyfodol. Mae gan y staff ran hanfodol i'w chwarae drwy helpu'r Cynulliad i leihau faint o wastraff y mae'n ei anfon i'w gladdu ac fe'u hanogir yn gyson i ddefnyddio'r cyfleusterau ailgylchu.

**Mannau Chwarae yn yr Awyr Agored**

**C28 Mick Bates:** Pa gamau sydd wedi'u cymryd i sicrhau bod gan blant ym mhob cymuned yng Nghymru gyfle i ddefnyddio mannau chwarae diogel, ag ynddynt offer priodol, yn yr awyr agored? (OAQ2031VB)

**Peter Law:** Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw darparu a chynnal a chadw mannau chwarae lleol a'u hoffer. Nid yw'r rhan fwyaf o gefnogaeth grant a roddir ar gyfer gwasanaethau refeniw llywodraeth leol yn cael ei glustnodi ar gyfer gwasanaethau penodol. Pob awdurdod sydd felly i bennu ei flaenoriaethau gwario ei hun, gan ystyried ei gyfrifoldebau statudol yn ogystal ag anghenion a blaenoriaethau lleol.

**Siopau Elusennol (Treth i Fusnesau)**

**C29 Michael German:** Yn sgîl y ffaith nad oes unrhyw sôn am siopau elusennau yn y papur ymgynghorol 'Trethi Busnes: Ailbrisiad 2000 – Trefniadau Trosiannol', a wnaiff Peter Law roi sicrhad y bydd cymorth y dreth i fusnesau sydd ar gael i siopau elusennau yn parhau? (OAQ2084JS)

**Peter Law:** Os bydd siop elusennol yn parhau i gyflawni'r gofynion a nodir yn adran 43 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mae ganddynt hawl ar hyd at 80 y cant o ostyngiad mandadol fel pwynt o drefn. Mae gan yr awdurdodau lleol yr hawl i roi hyd at 100 y cant o ostyngiad dewisol. Nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yr hawl i newid hyn gan fod yr 80 y cant o ostyngiad mandadol wedi ei gadw yn ein deddfwriaeth sylfaenol. Fodd bynnag, yr ydym yn ystyried y posibilrwydd o roi canllawiau wedi eu hadolygu i'r awdurdodau sydd yn egluro'r sefyllfaoedd lle mae gostyngiad gorfodol yn berthnasol.

**Gwybodaeth i'r Cyhoedd (Awdurdodau Lleol)**

**C30 Janet Davies:** A yw Peter Law yn ymwybodol o'r hyn y mae'r awdurdodau lleol wedi'i wneud i helpu'r cyhoedd i gael gafael ar wybodaeth, gan gynnwys argaeledd copïau? (OAQ2046JS)

**Peter Law:** Nid oes gennyf unrhyw wybodaeth am gamau penodol sydd wedi eu cymryd gan awdurdodau lleol unigol yng Nghymru. Rhaid i Gynghorau ystyried y gofynion statudol a hawl y cyhoedd i gael gweld y wybodaeth sydd yn (i) Adran 100B i 100K Deddf Llywodraeth Leol 1972, (ii) Adran 69 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a (iii) Adran 15 Deddf Comisiwn Archwilio 1998. Golyga'r rhain fod gan y cyhoedd hawl i archwilio a chopïo dogfennau y mae ganddynt awdurdod i'w gweld, neu fe allent ofyn am gael y copïau wedi eu hanfon atynt.